The Fostering Network

Pecyn Cymorth Gweithredu

# Siarter y Gofalwyr Maeth i Gymru



## Ynglŷn â’r Rhwydwaith Maethu

Y Rhwydwaith Maethu yw prif elusen faethu’r Deyrnas Unedig. Y ni yw’r rhwydwaith hanfodol ar gyfer maethu, gan ddod â phawb ynghyd sy’n gysylltiedig â bywydau plant wedi’u maethu.

Cynorthwywn ofalwyr maeth i weddnewid bywydau plant ac rydym yn gweithio â gwasanaethau maethu a’r sector ehangach i ddatblygu ac i rannu arferion gorau.

Gweithiwn i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd wedi’i faethu yn profi bywyd teuluol sefydlog, ac rydym yn angerddol dros y gwahaniaeth a wna gofal maeth. Hyrwyddwn faethu ac fe geisiwn greu newid hanfodol fel bod gofal maeth y gorau un y gall fod.

**thefosteringnetwork.org.uk**.

## Cydnabyddiaethau’r Awduron

Mae yna lawer o bobl wedi bod yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu’r pecyn cymorth hwn ar gyfer cynghorwyr, swyddogion llywodraeth leol a gofalwyr maeth yng Nghymru, ac maent wedi bod yn hael â’u hamser a’u harbenigedd. Maent yn cynnwys gofalwyr maeth ac ymarferwyr y byddai’r Rhwydwaith Maethu’n hoffi diolch iddynt a’u henwi’n unigol gan fod eu cyfraniadau wedi gwella datblygiad y Siarter yn fawr.

- Llysgenhadon gofalwyr maeth Y Rhwydwaith Maethu yng Nghymru
- Jan Stanton, Aelod Cyswllt o’r Rhwydwaith Maethu
- Stuart Blythe, Swyddog Polisi, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Gwasanaeth Maethu Dinas Caerdydd
- Maethu Abertawe
- Grŵp Gofal Maeth Cymru
- AFA Cymru

Maria Boffey, pennaeth gweithrediadau i’r Rhwydwaith Maethu yng Nghymru, ac Anna Morgan, cyfarwyddwr Red Shiny Apple.

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Rhagair** | | **4** |
| **Rhagymadrodd** | | **5** |
| **Beth mae'r pecyn cymorth hwn yn ei gynnig ac ar gyfer pwy y mae o?** | | **7** |
| **Sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn** | | **8** |
| **Rôl cynghorwyr a swyddogion llywodraeth leol** | | **9** |
| **Hunan-asesu ar gyfer cynghorwyr** | | **13** |
| Rhan Un | Trosi Siarter Y Gofalwyr Maeth yn realiti | |
| Rhan Dau | Monitro cynnydd Siarter y Gofalwyr Maeth | |
| Rhan Tri | Partneriaid a Chydweithio | |
| Rhan Pedwar | Cymorth Cenedlaethol | |
| **Hunan-asesu ar gyfer swyddogion llywodraeth leol** | | **24** |
| Rhan Un | Trosi Siarter Y Gofalwyr Maeth yn realiti | |
| Rhan Dau | Monitro cynnydd Siarter y Gofalwyr Maeth | |
| Rhan Tri | Partneriaid a Chydweithio | |
| Rhan Pedwar | Cymorth Cenedlaethol | |
| **Rôl Gofalwyr Maeth** | | **33** |
| **Hunan-asesu ar gyfer gofalwyr maeth** | | **35** |
| Rhan Un | Trosi Siarter Y Gofalwyr Maeth yn realiti | |
| Rhan Dau | Monitro cynnydd Siarter y Gofalwyr Maeth | |
| Rhan Tri | Partneriaid a Chydweithio | |
| Rhan Pedwar | Cymorth Cenedlaethol | |
| **Cynllun Gweithredu Personol** | | **45** |
| **Siart llif gweithredu Siarter Y Gofalwyr Maeth** | | **46** |

# Rhagair

Mae gofalwyr maeth drwy Gymru i gyd yn darparu cartrefi sefydlog a diogel i filoedd o blant mewn gofal bob un flwyddyn, ac maent yn aml yn rhoi'u profiad gwirioneddol cyntaf i'r plant hyn o fywyd teuluol cadarnhaol. Mae maethu'n gwneud gwahaniaeth sy'n gweddnewid bywydau plant drwy gynnig y cartref sefydlog a diogel iddynt y mae arnynt ei angen i ffynnu.

Fel gofalwr maeth fy hun, fe wn am y llawenydd y gall maethu ei greu; ond rwyf hefyd yn ymwybodol iawn o'r heriau lu sy'n wynebu gofalwyr maeth. Rhan o gylch gwaith Y Rhwydwaith Maethu yw gweithio â gofalwyr maeth a gwasanaethau maethu i leihau'r heriau hyn hyd yr eithaf, ac i wneud gofal maeth y gorau un y gall fod i blant sydd wedi'u maethu ac i'r teuluoedd sy'n gofalu amdanynt. Gall ein Siarter Gofalwyr Maeth fod â rhan sylweddol wrth helpu i gyflawni hyn. Mae'r Siarter yn egluro'r cyfrifoldebau a'r disgwyliadau sydd ar wasanaethau maethu a gofalwyr maeth, fel ei gilydd, wrth iddynt gydweithio i ofalu am blant sydd wedi'u maethu.

Rydym yn galw am i Siarter y Gofalwyr Maeth fod ar waith ym mhob gwasanaeth maethu ledled Cymru. Credwn y bydd yn helpu gofalwyr maeth i deimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu cefnogi gan eu gwasanaethau maethu, ac fe all fod yn gam cyntaf pwysig tuag at weld gofalwyr maeth yn cael eu trin a'u parchu fel y gweithwyr proffesiynol yr ydynt.

Gobeithiwn y bydd y pecyn cymorth hwn yn eich helpu i roi siarter ar waith yn eich gwasanaeth maethu fel bod gofalwyr maeth yn cael y gydnabyddiaeth y maent yn ei haeddu a'i hangen i ddarparu'r gofal gorau posibl i blant.



**Colin Turner**
Cyfarwyddwr
Rhwydwaith Maethu Cymru

# Rhagymadrodd

Mae gofalwyr maeth yn darparu amgylchedd diogel, llawn cariad i blant sy'n agored i niwed. Gyda chariad a chefnogaeth gofalwyr maeth, mae'r plant yn eu gofal yn addasu'n gyflym ac yn aml yn ffynnu. O'i roi'n blaen, mae gofalwyr maeth yn helpu i wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau plant.

Mae gofalwyr maeth yn hanfodol i gefnogi plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Yn ôl y ffigurau diweddaraf (31ain o Fawrth, 2017), mae yna tua 4,400 o blant yn byw â theuluoedd maeth yng Nghymru. Mae hyn bron yn dri-chwarter yr holl blant sy'n derbyn gofal.

Mae yna oddeutu 3,700 o deuluoedd maeth yng Nghymru, ac mae'r Rhwydwaith Maethu yn amcangyfrif bod ar wasanaethau maethu angen recriwtio 440 yn rhagor o deuluoedd maeth yn 2017-2018.

Mae'r Rhwydwaith Maethu wedi ymgyrchu ers amser maith dros ofalwyr maeth gael eu hystyried fel aelodau llawn o'r tîm sy'n gweithio â phlant sy'n derbyn gofal. Mae Siarter Gofalwyr Maeth Y Rhwydwaith Maethu, a lansiwyd yn swyddogol yn 2015 gan Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, Mark Drakeford, AC, yn helpu i sicrhau y daw hyn yn realiti.

Mae Siarter Y Gofalwyr Maeth yn cefnogi cyfrifoldebau awdurdodau lleol fel rhieni corfforaethol ac mae'n amlinellu fframwaith hawliau a disgwyliadau ar gyfer gofalwyr maeth. Mae'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau cilyddol, a 'berchnogir' gan ofalwyr maeth a'r gwasanaeth maethu, fel ei gilydd. Mae'n ymdrin â materion megis goruchwylio, cymryd rhan mewn cynllunio a llunio penderfyniadau, gwybodaeth a thaliadau.

Drwy'r Deyrnas Unedig i gyd, mae gwasanaethau maethu a gofalwyr maeth yn cytuno ar y Siarter hon fel y gall gofalwyr maeth gael y gydnabyddiaeth a'r gefnogaeth y maent yn eu haeddu a'u hangen i ddarparu'r gofal gorau posibl i blant.

Er mwyn sicrhau bod Siarter y Gofalwyr Maeth wedi'i gwreiddio i mewn i arferion beunyddiol, mae'r Rhwydwaith Maethu'n helpu gwasanaethau maethu ledled Cymru i ddatblygu ac i weithredu'u siarteri lleol eu hunain. Dyma pam, ym mis Gorffennaf 2017, y gwnaethom lansio **Fframwaith Gweithredu Siarter Y Gofalwyr Maeth Cymru**.

Mae hyn yn mynd â'r Siarter i'r lefel nesaf – mae'n trosi'r delfrydau yn weithredoedd diriaethol y gellir eu cymryd gan ystod eang o bartneriaid i greu gwelliannau gwirioneddol a mesuradwy mewn gofal maeth ledled y wlad.

Mae'r pecyn cymorth hwn yn cynorthwyo'r gwaith o weithredu Siarter Y Gofalwyr Maeth.




*Lansiwyd Siarter y Gofalwyr Maeth yn y Senedd ym mis Mai 2015 gan (o'r chwith i'r dde) Mark Drakeford, AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bryd hynny; Kevin Williams, prif weithredwr Y Rhwydwaith Maethu; a llysgennad gofalwyr maeth, Will Howells.*

# Beth mae’r pecyn cymorth hwn yn ei gynnig ac ar gyfer pwy y mae o?

Mae’r pecyn cymorth hwn yn cynorthwyo pawb sy’n gysylltiedig â gwasanaethau maethu i weithredu Siarter Y Gofalwyr Maeth yng Nghymru yn llwyddiannus ac yn effeithiol, fel unigolion ac mewn partneriaeth ag eraill.


Mae’n canolbwyntio’n benodol ar rolau cynghorwyr, gofalwyr maeth a swyddogion llywodraeth leol.

Fodd bynnag, nid yw hon yn rhestr drwyadl o’r holl randdeiliaid a allai fod yn cymryd rhan. Dylai swyddogion llywodraeth leol mewn gwasanaethau cymdeithasol, er enghraifft, gael eu hystyried yn eu cyd-destun ehangaf. Cydnabyddwn hefyd rôl y trydydd sector a’r ddyletswydd statudol a osodir ar awdurdodau lleol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, i roi sylw i’w rôl.

Mae’r pecyn cymorth yn darparu cyfle i bawb sy’n gysylltiedig â gweithredu Siarter Y Gofalwyr Maeth ystyried rolau’r naill a’r llall yn ogystal â’u rôl eu hunain yn fanylach, dysgu am gyfrifoldeb ei gilydd a ‘herio’ ei gilydd gyda dull ‘cyfaill beirniadol’ o weithredu.

Bydd y dull cydberchnogaeth hwn o weithredu yn helpu i sicrhau bod Siarter Y Gofalwyr Maeth yn datblygu’n effeithiol.

Mae Siarter Y Gofalwyr Maeth yn berthnasol i ystod eang o bobl sy’n gysylltiedig â maethu.



# Sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn

Gellir defnyddio'r pecyn cymorth hwn mewn amrywiol sefyllfaoedd, yn cynnwys:

- cyfarfodydd presennol y cyngor a phartneriaeth strategol.
- grwpiau rhianta corfforaethol.
- digwyddiadau hyfforddi.
- grwpiau a chyfarfodydd anffurfiol.
- gweithgorau.

Mae'r pecyn cymorth hwn yn darparu deunyddiau i gynorthwyo rhianta corfforaethol wrth asesu mor dda y mae'u Cyngor eu hunain yn ei wneud, gan ddefnyddio ffynonellau meintiol ac ansoddol o wybodaeth.

Rhannir y pecyn cymorth yn adrannau i gynghorwyr, swyddogion llywodraeth leol a gofalwyr maeth. O fewn pob adran, mae yna'r cyfle i hunanasesu yn erbyn pob un o feysydd allweddol y Fframwaith Gweithredu fel a ganlyn:

Rhan Un: Trosi'r Siarter yn realiti

Rhan Dau: Monitro cynnydd Siarter Y Gofalwyr Maeth

Rhan Tri: Partneriaid a Chydweithio

Rhan Pedwar: Cymorth Cenedlaethol

Mae pob rhan yn gofyn cwestiynau i gyfranogwyr. Drwy ddarparu ymateb i'r cwestiynau, fe allwch ganfod meysydd arferion da a meysydd y gellir eu gwella i gynorthwyo i weithredu Siarter Y Gofalwyr Maeth yn effeithiol.

Unwaith rydych wedi cwblhau'r cwestiynau, mae yna gynllun gweithredu personol i'w lenwi fydd yn eich helpu i ganfod ac i gyflawni'ch nodau.

Drwy gyfeirio yn ôl at y Fframwaith Gweithredu, fe allwch ystyried yr hyn a ddysgoch o'r hunan-asesu ac ystyried yr hyn sydd angen ei wneud i gyflawni gweithredoedd penodol sy'n ategu Siarter Y Gofalwyr Maeth.

# Rôl cynghorwyr a swyddogion llywodraeth leol

Mewn iaith blaen, fe fwriadir i riant corfforaethol gyflawni llawer o'r rolau y byddai rhiant yn eu gwneud. Efallai na fyddant yn gallu darparu popeth y gall rhiant cariadus ei wneud, ond fe ddylent er hynny ddal i allu darparu'r gefnogaeth a'r gofal gorau posibl i'r plant a'r bobl ifanc y maent yn gyfrifol amdanynt.

Y bwriad wrth wraidd y cysyniad yw annog pobl a sefydliadau i wneud cymaint ag y gallant i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn teimlo'u bod yn rheoli'u bywydau ac yn gallu goresgyn y rhwystrau a wynebant.

"Mae gan gynghorwyr, fel rhieni corfforaethol, rôl bwysig i sicrhau bod pob plentyn yng ngwasanaethau gofal eu cyngor yn derbyn y gofal gorau posibl. Dylent fod yn ymdrechu i ddarparu'r lefel o ofal y byddent yn fodlon i'w plant eu hunain ei derbyn. Gobeithiaf y byddwch drwy'ch rôl rhianta corfforaethol yn rhannu fy ngweledigaeth ar gyfer holl blant a phobl ifanc Cymru i gael cyfle cyfartal i fod y gorau y gallant fod."

**Sally Holland - Comisiynydd Plant Cymru**

## Y rhwymedigaethau ar gynghorwyr a swyddogion llywodraeth leol

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn amlinellu'r ddyletswydd ar gynghorau i ddiogelu ac i hyrwyddo lles pob plentyn a pherson sy'n gadael gofal sydd yn eu gofal (rhan 6, adran 78).

Mae pob cynghorydd yn rhannu cyfrifoldeb am rianta corfforaethol, ond nid yw hyn yn golygu bod gan bawb yr un rôl. Bydd gan y cynghorwyr hynny sy'n cadeirio grwpiau rhianta corfforaethol, neu sy'n gysylltiedig â chraffu thematig ar wasanaethau plant, fwy o rôl o ddydd i ddydd, er enghraifft, na'r rheiny sy'n gyfrifol am benderfyniadau ynglŷn â'r amgylchedd neu gynllunio.

Gallwch ddarllen mwy am hyn yn y Llyfr Gwaith am Rianta Corfforaethol, a gyhoeddwyd gan Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Mehefin, 2016.

## Pam mae rhianta corfforaethol mor bwysig?

Mae yna lawer o resymau pam mae ar blant angen derbyn gofal, a all gynnwys camdriniaeth, esgeulustod neu adawiad gan rieni. Bydd hyn eisoes wedi'u rhoi nhw mewn sefyllfa anfanteisiol, ac felly mae'n hanfodol bod eu profiadau mewn gofal cyhoeddus yn gwneud iawn am yr anfantais hon, yn hytrach nag yn ei gwaethygu. Mae ar y plant a'r bobl ifanc hyn angen i'w rhieni corfforaethol fod yn hyrwyddwyr drostynt wrth iddynt ymdrechu i gael beth mae arnynt ei angen iddynt ac i sicrhau'u bod yn ddiogel.

Mae angen darparu gofal da i blant o gyfnod cynnar neu maent mewn perygl o ddechrau ar droell ddisgynnol o leoliadau lle mae yna amharu, a all arwain at fwy o broblemau iddynt, ac yn anochel at gostau uwch i'r awdurdod lleol.

Un o fuddion pwysicaf rhianta corfforaethol da yw gwella'r deilliannau i blant unigol. Bydd hyn ond yn digwydd os oes yna wasanaethau addas wedi'u datblygu sy'n archwilio anghenion y plant sy'n derbyn gofal ac sy'n sicrhau bod y rhain yn cael eu diwallu. Mae yna wedyn lawer llai o angen edrych y tu hwnt i'r awdurdod er mwyn prynu darpariaeth frys neu arbenigol. Mae'r ddarpariaeth hon nid yn unig yn ddrud, ond mae hi hefyd yn llawer llai tebygol o ddarparu'r sefydlogrwydd i'r plentyn y mae'i hangen i ddatblygu, a all arwain at ddeilliannau gwaeth i'r plentyn hwnnw.

Mae yna hefyd yr effaith y gall rhianta corfforaethol effeithiol ei chael ar berfformiad awdurdod lleol. Er nad yw Llywodraeth Cymru mwyach yn pennu targedau ar gyfer gwasanaethau awdurdodau lleol, mae yna eto'r disgwyliad y dylent fod yn monitro'u perfformiad eu hunain, yn enwedig mewn meysydd allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys p'un a yw plant sy'n derbyn gofal wedi derbyn asesiadau iechyd rheolaidd, eu bod yn cyflawni'n foddhaol mewn addysg a'u bod yn byw mewn lleoliadau sefydlog.

Mae'n ffaith y bydd gwasanaethau lleol da a lleoliadau da yn gwella cyfleoedd bywyd plant sy'n derbyn gofal, yn well gwerth am arian ac y bydd yn ddi-os wedyn yn cyfrannu at raddfeydd perfformio da.

## Petai hwn yn blentyn i mi…

Pan ddowch yn aelod etholedig, fe ddowch hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu fel rhiant corfforaethol da ar gyfer yr holl blant y mae'n gofalu amdanynt. Rôl y rhiant corfforaethol yw sicrhau bod plant mewn gofal cyhoeddus yn derbyn yr un deilliannau y byddai ar bob rhiant da ei eisiau i'w blant ei hun. Mae yna ddyletswydd gyfreithiol a moesol ar yr awdurdod lleol i ddarparu'r cyfryw gefnogaeth i'r plant y mae'n gofalu amdanynt.

Camsyniad cyffredin ynglŷn â phlant mewn gofal yw eu bod nhw yno oherwydd eu bod wedi gwneud rhywbeth o'i le, ac nid yw hynny'n wir. Mae mwyafrif llethol y plant mewn gofal yno oherwydd pwysau a phroblemau teuluol, neu oherwydd eu bod wedi profi camdriniaeth neu esgeulustod. Efallai bod yna chwalu wedi bod yn eu teulu biolegol, neu waeledd, neu angen cael eu symud o'u cartref oherwydd sefyllfa lle mae'u diogelwch a'u lles wedi'u bygwth.

Unwaith y daw plentyn i dderbyn gofal, mae ar holl aelodau a swyddogion y cyngor, fel eu rhieni corfforaethol, angen gweithredu dros y plentyn hwnnw fel petai'n blentyn iddyn' nhw. Dylai'r gweithredu hwn gwmpasu addysg, iechyd a lles y plentyn, yr hyn y mae'n ei wneud yn ei amser hamdden ac yn ystod y gwyliau, sut mae'n dathlu'i ddiwylliant neu'i grefydd, a sut mae'n derbyn canmoliaeth ac anogaeth am ei gyflawniadau.

Dylai cyfrifoldebau pob cynghorydd fel rhieni corfforaethol gynnwys bod yn fodlon bod yna ddull gweithredu cydgysylltiedig, effeithiol a chyfannol i ddiwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal drwy'r trefniadau cynllunio lleol – mae Siarter Y Gofalwyr Maeth yn addewid i wneud hyn yn realiti.

Mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd sicrhau bod gwasanaethau i oedolion yn gallu cynorthwyo'r plentyn i bontio i fyd oedolyn a chynorthwyo'r plentyn a theulu'r person ifanc. Yn rhy aml, fe all anghydfod rhwng adrannau'r Cyngor ynglŷn â pha un sydd â chyfrifoldeb dros blant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal arwain at y plant a'r bobl ifanc hyn yn cael eu gwrthod rhag cael y gwasanaethau a'r cymorth y mae ganddynt hawl iddynt. Dylai gweithio'n effeithiol ar y cyd a rhianta corfforaethol gweithredol atal hyn rhag digwydd.

Y Cyngor yn ei gyfanrwydd yw'r rhiant corfforaethol, ac felly mae gan bob cynghorydd lefel o gyfrifoldeb dros blant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod. Mae gan aelodau etholedig, rheolwyr a staff wahanol orchwylion a lefelau cyfrifoldeb, ond mae'n rhaid iddynt oll gymryd rhan weithredol i sicrhau bod y gofal a'r cyfleoedd gorau posibl ar gael i blant.

Caiff cyfrifoldebau rhianta corfforaethol ond eu cyflawni'n effeithiol lle mae yna ymrwymiad ac arweiniad gwleidyddol eglur, a phan fo uwch-reolwyr yn cytuno bod hyn yn flaenoriaeth ac yn ei wneud yn eglur mewn cynlluniau strategol a busnes. Mae hyn yn mynnu y bydd yna fecanweithiau i bob cynghorydd dderbyn gwybodaeth gywir a chanfod gwybodaeth am y problemau sylfaenol sy'n wynebu'r cyfryw blant yn eu hardal. Nid yw hyn yn golygu y byddai'n briodol rhannu gwybodaeth bersonol am blant unigol sydd gyda chi, ond yn hytrach bod gennych hawl i gael at wybodaeth gyffredinol am dueddiadau a materion sy'n effeithio ar blant sy'n derbyn gofal, yn ogystal ag ansawdd ac ystod y gwasanaethau a ddarperir iddynt.

Gallwch ddarllen mwy am hyn yn Petai'n blentyn i mi: Llawlyfr i Gynghorwyr ynghylch bod yn rhiant corfforaethol da i blant mewn gofal a phobl sy'n gadael gofal , a gyhoeddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

# Beth yw'r rôl rhianta corfforaethol i gynghorwyr a swyddogion?

Mae gan bob gwasanaeth sy'n cynorthwyo plant sy'n derbyn gofal gyfrifoldeb rhiant corfforaethol, ac rydym i gyd yn atebol i'r plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Fel aelod etholedig, fe allwch helpu drwy gymryd rôl weithredol yn eich cymuned, drwy fynychu'n rheolaidd gyfarfodydd sefydliadau sy'n gysylltiedig â phlant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal. Maent yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth i'ch helpu i nodi'r materion lleol sy'n effeithio ar blant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal, ac fe fydd yn eich helpu i ofyn y cwestiynau hynny fydd yn rhoi hyder ichi fod gwasanaethau lleol yn cynorthwyo'u lles.

Mae'n rhaid inni i gyd ymdrechu'n daer dros blant yn ein gofal i lwyddo yn yr un ffordd y byddai unrhyw riant yn ymdrechu'n daer dros eu plant eu hunain. Gall hyn olygu darparu cyngor ac arweiniad i berson ifanc sy'n dechrau byw'n annibynnol, cynorthwyo gofalwyr maeth, sicrhau y diogelir iechyd meddwl plant, helpu person ifanc i ganfod swydd, neu wrando ar eu gobeithion a'u dyheadau, eu problemau a'u teimladau o anniogelwch. Mae yna ystod eang o bobl a sefydliadau sydd angen cydweithio, a'ch cyfrifoldeb chi o fewn eich ardal yw canfod eu bod yn gwneud hyn. Y chi, i bob diben, yw'r 'olew yn yr injan' fydd yn gyrru cynnydd yn ei flaen.

Dylai pob cynghorydd fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau rhianta corfforaethol. Dylid ategu hyn drwy sesiynau hyfforddi ar rôl rhiant corfforaethol, fydd hefyd yn ffurfio elfen orfodol o'r broses sefydlu i gynghorwyr. Bydd cymorth gan swyddogion a hyfforddiant yn galluogi cynghorwyr i ymgymryd â'u rôl yn y ffordd fwyaf effeithiol ac amserol ac i ddatblygu gwybodaeth yn y meysydd a ganlyn:

- bod â dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth eglur o Siarter Y Gofalwyr Maeth.
- hyrwyddo Siarter Y Gofalwyr Maeth.
- herio'n adeiladol y gwaith o weithredu Siarter Y Gofalwyr Maeth.
- cyfathrebu â'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid, fel bod ganddynt lais o ran sut y gwneir penderfyniadau ynglŷn â'r gwasanaethau sy'n effeithio arnynt, fel y gallant ddylanwadu ar y penderfyniadau hynny'n gadarnhaol.
- herio p'un a yw'r Cyngor yn cadw'r addewid a'r ymrwymiad y mae wedi'i wneud yn Siarter Y Gofalwyr Maeth.
- gofyn am dystiolaeth o ddeilliannau cadarnhaol a datblygiadol, yn enwedig y rheiny yn ardal eich ward chi.
- gofyn sut mae holl agweddau busnes y Cyngor yn effeithio ar weithredu Siarter Y Gofalwyr Maeth yn llwyddiannus.
- gwneud cysylltiadau a dolenni rhwng cynlluniau, strategaethau a llunio penderfyniadau gan y Cyngor sy'n berthnasol i Siarter Y Gofalwyr Maeth.
- gofyn yn gyson, *'A fyddai hyn yn ddigon da i fy mhlentyn fy hun?'*

## Hunan-asesu ar gyfer cynghorwyr

**Rhan Un – Trosi Siarter Y Gofalwyr Maeth yn realiti**

| Cwestiwn | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|
| 1.1 A oes gan eich awdurdod lleol Siarter Y Gofalwyr Maeth ar waith eisoes? | | |
| 1.2 A oes yna arweinyddiaeth a chyfrifoldeb eglur drwy fod un neu ragor o aelodau gweithredol yn cymryd y prif gyfrifoldeb dros ddarparu Siarter Y Gofalwyr Maeth? | | |
| 1.3 A ydych yn gwybod pwy yw’r aelod arweiniol â chyfrifoldeb am y Siarter, ac a ydynt wedi’i llofnodi? | | |
| 1.4 Pa gysylltiadau sy’n bodoli rhwng yr aelod arweiniol sydd â chyfrifoldeb am y Siarter ac aelodau arweiniol eraill sydd â chyfrifoldeb am wasanaethau plant? | | |

**Rhan Un – Trosi Siarter Y Gofalwyr Maeth yn realiti**

| Cwestiwn | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|
| 1.5 Sut rydych yn sicrhau bod yr arweinyddiaeth a'r atebolrwydd yn eglur? Beth yw'r trefniadau adrodd, ac a ydynt yn hygyrch? | | |
| 1.6 A oes yna aelod etholedig wedi'i ddynodi fel "Hyrwyddwr Gofalwyr Maeth" i godi ymwybyddiaeth o ofal maeth, yn cynnwys, er enghraifft, rôl y gwasanaethau maethu a gofalwyr maeth? | | |
| 1.7 A oedd o ar waith i sicrhau bod pob aelod yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau am weithredu'r Siarter yn llwyddiannus? | | |
| 1.8 A oes gan eich awdurdod brosesau effeithiol ar waith i weithredu Siarter Y Gofalwyr Maeth? | | |
| 1.9 Sut mae asiantaethau sy'n bartneriaid yn blaenoriaethu maethu? Er enghraifft, a yw'n eglur fel blaenoriaeth yn eu cynlluniau strategol a busnes? | | |

**Rhan Un – Trosi Siarter Y Gofalwyr Maeth yn realiti**

| Cwestiwn | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|
| 1.10 Sut rydych yn cadw mewn cysylltiad â gofalwyr maeth a phlant sy'n derbyn gofal, fel eich bod yn ymwybodol o'r materion sy'n effeithio arnynt? | | |
| 1.11 Pa gyfleoedd eraill a ydych yn eu defnyddio i hyrwyddo'r Siarter, er enghraifft, fel llywodraethwr ysgol? | | |
| 1.12 A oes gennych gynllun gweithredu i adolygu sut y caiff y Siarter ei gweithredu? | | |
| 1.13 Pa ddarpariaethau sydd ar waith i sicrhau y caiff gofalwyr maeth gefnogaeth a chyfleoedd i ddatblygu yn ardal Siarter Y Gofalwyr Maeth? | | |

## Hunan-asesu ar gyfer cynghorwyr

**Rhan Dau – Monitro cynnydd Siarter y Gofalwyr Maeth**

| Cwestiwn | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|
| 2 .1 Ble mae craffu ar Siarter Y Gofalwyr Maeth yn digwydd? | | |
| 2.2 A ystyrir y Siarter gan y Cyngor yn ei gyfanrwydd yn eich cyfarfodydd gweithredol, bwrdd neu gabinet? | | |
| 2.3 Pa fecanweithiau sydd ar waith i'r Cyngor gael ei hysbysu am gynnydd gweithrediad y Siarter? | | |

**Rhan Dau – Monitro cynnydd Siarter y Gofalwyr Maeth**

| Cwestiwn | | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|---|
| 2.4 | Sut rydych yn cysuro'ch hun bod cynnydd yn cael ei wneud? | | |
| 2.5 | Sut mae gofalwyr maeth, plant a gwasanaethau maethu yn gallu darparu adborth ar y gweithrediad? | | |
| 2.6 | Pa brosesau sydd ar waith i asesu unrhyw gwynion? | | |
| 2.7 | Pa fesurau sydd ar waith i ddadansoddi perfformiad ar gyflawni Siarter Y Gofalwyr Maeth? | | |

## Rhan Dau – Monitro cynnydd Siarter y Gofalwyr Maeth

| Cwestiwn | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|
| 2.8 Sut y caiff gwybodaeth am gynnydd ei rhoi ar gael (er enghraifft, a oes yna adroddiad blynyddol)? | | |
| 2.9 Sut y gall dadansoddi cynnydd ddylanwadu ar lunio penderfyniadau a datblygu polisïau? | | |
| 2.10 Sut y gwnewch ddefnyddio unrhyw wersi a ddysgwyd a hyrwyddo meysydd arferion da? | | |
| 2.11 Sut y cewch yr wybodaeth fwyaf cyfoes am adroddiadau arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru am wasanaethau plant? | | |

**Rhan Dau – Monitro cynnydd Siarter y Gofalwyr Maeth**

| Cwestiwn | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|
| 2.12 Sut mae perfformiad eich awdurdod lleol yn cymharu â pherfformiad awdurdodau lleol eraill? | | |
| 2.13 Sut y darperir adborth am gynnydd i bob rhanddeiliad? | | |
| 2.14 O'r hyn a wyddoch chi, a fyddai'r gofal hwn yn ddigon da i'ch plentyn eich hun? | | |
| 2.15 Pa fesurau sydd ar waith i sicrhau bod gan bob rhanddeiliad ddealltwriaeth o'r Siarter, fel ei fod yn dod yn rhan o ddiwylliant eich Cyngor? | | |
| 2.16 A oes yna weithgareddau priodol i aelodau etholedig gyfarfod a gwrando ar blant sy'n derbyn gofal i ddathlu ac i gydnabod eu cyflawniadau? | | |

## Hunan-asesu ar gyfer cynghorwyr

**Rhan Tri – Partneriaid a Chydweithio**

| Cwestiwn | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|
| 3 .1 Pwy yw'r rhanddeiliaid a all gynorthwyo i gyflawni Siarter Y Gofalwyr Maeth? | | |
| 3.2 Pa ddulliau cyfathrebu y mae'r awdurdod lleol wedi'u rhoi ar waith i roi cyhoeddusrwydd i'r Siarter ymysg rhanddeiliaid (er enghraifft, drwy'r wefan, posteri neu erthyglau cylchlythyrau)? | | |
| 3.3 Sut rydych yn sicrhau bod yr holl bartneriaid yn ymwybodol o, ac yn gweithio tuag at y Siarter? | | |

**Rhan Tri – Partneriaid a Chydweithio**

| Cwestiwn | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|
| 3.4 Pa gytundebau, heblaw'r Siarter, sy'n bodoli i gynorthwyo gyda gweithio mewn partneriaeth? | | |
| 3.5 Pa fesurau sydd ar waith i sicrhau bod gofalwyr maeth yn cael eu galluogi i gymryd rhan fel partneriaid wrth weithredu'r Siarter? | | |
| 3.6 Sut mae gofalwyr maeth a phlant yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau? | | |

**Rhan Tri – Partneriaid a Chydweithio**

| Cwestiwn | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|
| 3.7 Sut rydych yn sicrhau bod dulliau cyfathrebu â rhanddeiliaid yn effeithiol ac effeithlon? | | |
| 3.8 Pa ddarpariaethau sydd ar waith i weithio â rhanddeiliaid/partneriaid i drafod nodau a strategaeth? A yw'r amserlenni'n rhesymol ac yn gyraeddadwy? | | |
| 3.9 Pa gyfleoedd sydd ar gael ar gyfer gweithio ar y cyd a sut y caiff y rhain eu cynorthwyo? Beth arall sydd angen ei ddarparu? | | |
| 3.10 Sut y delir partneriaid yn atebol? | | |

## Hunan-asesu ar gyfer cynghorwyr

**Rhan Pedwar - Cymorth Cenedlaethol**

| Cwestiwn | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|
| 4.1 I le rydych yn mynd i gael cymorth ar sail leol, ranbarthol a chenedlaethol? | | |
| 4.2 A oes yna unrhyw Gynghorau sy’n bartneriaid a all gynorthwyo ac a ddelir fel ymarfer gorau? | | |
| 4.3 Sut y caiff ymarfer gorau ei ledaenu? | | |

# Hunan-asesu ar gyfer swyddogion llywodraeth leol

**Rhan Un – Trosi Siarter Y Gofalwyr Maeth yn realiti**

| Cwestiwn | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|
| 1.1 A yw'ch awdurdod lleol eisoes wedi rhoi Siarter Y Gofalwyr Maeth ar waith? | | |
| 1.2 A ydych yn adnabod yr aelod arweiniol sydd â chyfrifoldeb am y Siarter, ac a ydynt wedi'i llofnodi? | | |
| 1.3 Sut rydych wedi rhoi cyhoeddusrwydd / sut y gallwch roi cyhoeddusrwydd i'r Siarter? | | |
| 1.4 Pwy, o fewn eich adran/gwasanaeth, sy'n allweddol i gyflwyno ac i weithredu'r Siarter? | | |

**Rhan Un – Trosi Siarter Y Gofalwyr Maeth yn realiti**

| Cwestiwn | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|
| 1.5 Pa gamau rydych wedi'u cymryd i sicrhau bod pob rhanddeiliad o fewn eich cylch gwaith yn deall y Siarter, fel ei bod yn dod yn rhan o'r diwylliant? | | |
| 1.6 Beth sydd ar waith i sicrhau bod pob rhanddeiliad yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i weithredu'r Siarter yn llwyddiannus? | | |
| 1.7 Pa rôl fu gennych wrth gyflwyno aelodau etholedig i'r Siarter? | | |
| 1.8 A oes gan eich adran/gwasanaeth brosesau effeithiol ar waith i weithredu'r Siarter? | | |
| 1.9 Mae cael gwybodaeth pan fo'i hangen yn hanfodol i ofalwyr maeth i ddarparu gofal sy'n diwallu anghenion y plentyn. A yw'ch adran/gwasanaeth yn darparu hyn? | | |

# Hunan-asesu ar gyfer swyddogion llywodraeth leol

**Rhan Dau – Monitro cynnydd Siarter Y Gofalwyr Maeth**

| Cwestiwn | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|
| 2.1 Pa fecanweithiau sydd ar waith i fonitro cynnydd yn erbyn gweithrediad Siarter Y Gofalwyr Maeth? | | |
| 2.2 Beth yw'r trefniadau llywodraethu yn ymwneud â'r Siarter? | | |
| 2.3 Sut rydych yn tawelu'ch meddwl eich hun bod cynnydd yn cael ei wneud ar weithredu'r Siarter? | | |

**Rhan Dau – Monitro cynnydd Siarter Y Gofalwyr Maeth**

| Cwestiwn | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|
| 2.4 Pwy rydych yn ei hysbysu os na chedwir at y Siarter? | | |
| 2.5 Sut mae gofalwyr maeth, plant a gwasanaethau maethu'n gallu darparu adborth ar y gweithredu? | | |
| 2.6 Sut rydych yn cael at enghreifftiau o ymarfer da i ddysgu oddi wrthynt? | | |
| 2.7 Pa fesurau sydd ar waith i ddadansoddi perfformiad ar gyflawni'r Siarter? | | |

**Rhan Dau – Monitro cynnydd Siarter Y Gofalwyr Maeth**

| Cwestiwn | | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|---|
| 2.8 | Sut y gwnewch ddefnyddio unrhyw wersi a ddysgwyd a hyrwyddo arferion da? | | |
| 2.9 | Sut y rhannir adborth ynglŷn â chynnydd â rhanddeiliaid? | | |
| 2.10 | A fyddech yn ystyried bod yr hyn a ddysgasoch am ofal o blant mewn gofal yn eich awdurdod lleol yn ddigon da ar gyfer eich plentyn? | | |
| 2.11 | Sut y caiff cwynion eu derbyn a'u monitro? Pa fesurau sydd ar waith i ddysgu gwersi o gwynion i wella gwasanaethau? | | |

# Hunan-asesu ar gyfer swyddogion llywodraeth leol

**Rhan Tri – Partneriaid a Chydweithio**

| Cwestiwn | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|
| 3.1 A roddir cyhoeddusrwydd i Siarter Y Gofalwyr Maeth ar wefan eich awdurdod lleol ac a ydyw'n hygyrch mewn fformatau eraill? | | |
| 3.2 A yw'ch adran gwasanaethau plant a'r sefydliad ehangach yn hyrwyddo Siarter Y Gofalwyr Maeth yn weithredol? | | |
| 3.3 A yw'r awdurdod lleol yn darparu hyfforddiant ar y cyd i godi ymwybyddiaeth o'r Siarter ac o rolau a chyfrifoldebau'r naill a'r llall? | | |
| 3.4 A yw partneriaid yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u hatebolrwydd? | | |

**Rhan Tri – Partneriaid a Chydweithio**

| Cwestiwn | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|
| 3.5 A wneir asiantaethau sy'n bartneriaid yn ymwybodol o, ac a ydynt yn cadw at, ofynion y Siarter? | | |
| 3.6 Pwy yw'r rhanddeiliaid a all gynorthwyo i ddarparu'r Siarter? | | |
| 3.7 Sut rydych yn sicrhau bod yr holl bartneriaid yn gweithio tuag at y Siarter? | | |
| 3.8 Sut rydych yn dal partneriaid yn atebol? | | |
| 3.9 Pa gytundebau, heblaw'r Siarter, sy'n bodoli i gynorthwyo gyda gweithio mewn partneriaeth? | | |

## Rhan Tri – Partneriaid a Chydweithio

| Cwestiwn | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|
| 3.10 Sut mae gofalwyr maeth a phlant yn cymryd rhan mewn penderfyniadau, hyfforddiant a mentrau eraill? | | |
| 3.11 Pa lefel o ymreolaeth a roddir i ofalwyr maeth i wneud penderfyniadau beunyddiol i sicrhau y gall plant deimlo'n rhan o'r teulu? | | |
| 3.12 Pa fecanweithiau sydd ar waith i gynnig cymorth 24 awr i ofalwyr maeth? | | |
| 3.13 Pa gymorth a ddarperir yn lleol i ofalwyr maeth a'u teuluoedd i rannu profiadau? | | |

# Hunan-asesu ar gyfer swyddogion llywodraeth leol

**Rhan Pedwar – Cymorth Cenedlaethol**

| Cwestiwn | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|
| 4.1 I ble rydych yn mynd am gymorth ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol? | | |
| 4.2 A oes yna unrhyw Gynghorau sy'n bartneriaid a all gynorthwyo ac a ddelir fel ymarfer gorau? | | |
| 4.3 Sut mae Siarter Y Gofalwyr Maeth yn cysylltu â, ac yn cydategu'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol? | | |

# Rôl Gofalwyr Maeth

Gall gofalwyr maeth weddnewid bywydau'r bobl ifanc y maent yn gweithio â nhw, gan ddod â sefydlogrwydd a diogelwch pan fo plentyn yn fwyaf anghenus.

Maent yn gofalu am anghenion corfforol y plentyn (yn darparu lle i gysgu, bwyd, diod a chynhesrwydd), ond hefyd am eu hanghenion emosiynol (eu galluogi i deimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac y gwrandewir arnynt, ac yn eu helpu nhw i ddod i delerau ag anawsterau'r gorffennol). Mae gofalwyr maeth hefyd yn cynorthwyo plant i gymryd eu lle yn y gymdeithas drwy gynorthwyo'u haddysg, eu helpu i reoli'u hymddygiad a'u paratoi ar gyfer byw'n annibynnol.

Mae gofalwyr maeth yn gofalu am y plant yn eu gofal 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos ac felly fe fyddant, yn nodweddiadol, yn y sefyllfa orau i fwrw sylw ar eu hymddygiad, eu tymer a'u hadweithiau. Yn aml, mae'r plentyn yn ymddiried yn y gofalwr maeth, a lle y bo plentyn yn methu â chyfathrebu hyn wrth wasanaethau plant, fe fydd eu gofalwr maeth yn gweithredu fel eiriolwr ar ei ran neu ei rhan.

Mae maethu'n rôl amlweddog, fydd yn effeithio'n anochel ar y gofalwr maeth, ei deulu a'r gymuned. Mae ar yr holl bartneriaid angen dal i ystyried y galwadau sydd ar faethu a pharchu'r ffaith y bydd ar ofalwyr maeth angen ystyried eu hanghenion eu hunain ac anghenion eraill yn eu cartref wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â ph'un ai i dderbyn neu i barhau â lleoliad neilltuol.

Dylai fod gan bawb sy'n gysylltiedig â maethu werthfawrogiad o'r gorchwyl ymestynnol ac amrywiol y mae gofalwyr maeth yn ymgymryd ag ef. Mae gofalwyr maeth yn aelodau craidd o'r tîm sy'n gweithio â phlant wedi'u maethu, ac fe ddylid eu cydnabod a'u parchu gan yr holl randdeiliaid am yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiad a ddônt â nhw i'w rôl.

Fel y pwysleisiasom yn gynharach, fe fydd Siarter Y Gofalwyr Maeth, y cytunir arni gan wasanaethau maethu a'u gofalwyr maeth, yn helpu i sicrhau y caiff gofalwyr maeth eu hystyried fel aelodau llawn o'r tîm sy'n gweithio â'r plentyn. Mae gan ofalwyr maeth hefyd rôl allweddol gyda gweithredu Siarter Y Gofalwyr Maeth yn effeithiol.

## Y pwysigrwydd bod gofalwyr maeth yn cymryd rhan yn y broses hunan-asesu

Yng Nghymru, fe gyfeirir at y gwasanaethau ar lefel leol a rhanbarthol sydd yn ymwneud yn fwyaf agos â gofal plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, eu haddysg, eu hamdden a'u gofal iechyd, fel y 'rhieni corfforaethol'. Mae plant a phobl ifanc yn gyfrifoldeb cymdeithasol.

Pan gaiff gofalwyr maeth eu cymeradwyo gyntaf, eu prif ddiddordeb yw gofalu am blant neu bobl ifanc yn eu gofal. Yn gychwynnol, efallai nad oes ganddynt ddiddordeb mewn sut y caiff gwasanaethau awdurdodau lleol eu trefnu a'u strwythuro. Fodd bynnag, wrth i ofalwyr maeth ennill mwy o sgiliau a phrofiad, fe wnânt ddweud wrthych ei fod yn werth gwybod sut mae rhianta corfforaethol yn gweithio.

Bydd gwybod sut y bydd y gwahanol wasanaethau, timau a gweithwyr cymdeithasol yn cysylltu â'i gilydd, ac am eu polisïau a'u deunydd canllawiau perthnasol, yn helpu gofalwr maeth yn sylweddol. Bydd yn eu helpu nhw i allu ymdrin â materion, megis gofalu diogelach, a hefyd yn eu helpu nhw wrth gynorthwyo ac eiriol dros y plant neu'r bobl ifanc yn eu gofal.

Dull newydd o weithredu i herio'r diwylliant 'ofn mentro' a oedd wedi datblygu o fewn gofal cymdeithasol plant ledled y Deyrnas Unedig. Cyflwynodd y llyfr arloesol hwn ffordd newydd o feddwl am egwyddorion ar gyfer amddiffyn plant a phobl ifanc mewn gofal maeth yr un pryd â chynnig canllawiau i ddiogelu gofalwyr maeth a'u teuluoedd rhag cwynion a honiadau. Mae 'Gofalu Diogelach: Dull Newydd o Weithredu' yn adnodd hanfodol i bawb sy'n gysylltiedig â gofalu am blant a phobl ifanc wedi'u maethu.

# Hunan-asesu ar gyfer gofalwyr maeth

**Rhan Un – Trosi Siarter Y Gofalwyr Maeth yn realiti**

| Cwestiwn | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|
| 1.1 A oes gan eich gwasanaeth maethu Siarter Y Gofalwyr Maeth ar waith yn barod? | | |
| 1.2 A ydych yn gwybod pwy yw'r prif gynghorydd sydd â chyfrifoldeb dros ddarparu Siarter Y Gofalwyr Maeth? | | |
| 1.3 Sut rydych yn cael eich asesu, hyfforddi a'ch cynorthwyo i ofalu am blant a phobl ifanc? | | |

**Rhan Un – Trosi Siarter Y Gofalwyr Maeth yn realiti**

| Cwestiwn | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|
| 1.4 Sut rydych yn cyflwyno'ch hun fel delfryd ymddwyn cadarnhaol i blant a phobl ifanc? | | |
| 1.5 Pa mor gysylltiedig rydych chi â llunio penderfyniadau a chynllunio â phartneriaid eraill yn y gwasanaeth maethu? | | |
| 1.6 Pa mor effeithiol yw'r cysylltiadau rhwng holl aelodau'r tîm maethu a'r plant yn eich gofal? | | |
| 1.7 A oes yna lawlyfr maethu ar waith yn eich gwasanaeth maethu? | | |

**Rhan Un – Trosi Siarter Y Gofalwyr Maeth yn realiti**

| Cwestiwn | | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|---|
| 1.8 | A allwch gael at wybodaeth heblaw eich llawlyfr, megis polisïau a chanllawiau'r gwasanaeth maethu, yn ei ffurf wreiddiol? | | |
| 1.9 | A yw'r awdurdod a ddirprwyir i chi i wneud penderfyniadau ar ran plant a phobl ifanc wedi'i egluro yn iawn? | | |
| 1.10 | Beth yw strwythur yr awdurdod sy'n gyfrifol am gynlluniau gofal y plant rydych yn gofalu amdanynt? | | |
| 1.11 | Pwy yw'r rheolwr sy'n pontio'r timau maethu a gofal plant, a ble mae wedi'i leoli yn strwythur yr awdurdod? | | |

**Rhan Un – Trosi Siarter Y Gofalwyr Maeth yn realiti**

| Cwestiwn | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|
| 1.12 Beth yw rôl, swyddogaeth a lleoliad y tîm sy'n gyfrifol am achos eich plant sydd wedi'u maethu? | | |
| 1.13 Sut rydych chi, eich gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol a'ch plant wedi'u maethu yn cyfathrebu? Sut y gallwch chi sicrhau bod pawb yn derbyn yr wybodaeth gennych y mae arnynt ei hangen? | | |
| 1.14 Pa bolisïau a gweithdrefnau asesu risg sy'n bodoli yn y gwasanaeth maethu rydych chi'n gweithio iddo, neu awdurdod lleol y plant a leolir â chi? A gedwir atynt? A welsoch y gwaith papur a'r canllawiau? | | |

# Hunan-asesu ar gyfer gofalwyr maeth

**Rhan Dau – Monitro cynnydd Siarter Y Gofalwyr Maeth**

| Cwestiwn | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|
| 2.1 Sut rydych yn monitro'r cynnydd a wneir ynghylch gweithredu Siarter Y Gofalwyr Maeth? | | |
| 2.2 A ydych yn eglur a hyderus ynglŷn â'r hyn a ddisgwylir ohonoch fel gofalwr maeth? | | |
| 2.3 Faint o ran a gymerwch chi o ran cynlluniau parthed lleoliadau? | | |

**Rhan Dau – Monitro cynnydd Siarter Y Gofalwyr Maeth**

| Cwestiwn | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|
| 2.4 Pa mor hyderus yw'ch plant yn eu gallu i gael at gymorth a chyngor gennych chi a gweithwyr cymdeithasol? | | |
| 2.5 A ydych yn mynychu digwyddiadau megis cyfleoedd dysgu a datblygu yn rheolaidd? | | |
| 2.6 Pa mor aml ydych yn ymateb i ymgynghoriadau lleol, a sut y caiff plant eu hannog i gymryd rhan? | | |
| 2.7 Pa mor aml ydych chi a'ch plant yn cyfarfod â chynghorwyr, rheolwyr gwasanaethau ac eraill i hysbysu neu i ddatblygu'r gwasanaeth, ar lefel leol, genedlaethol a/neu ranbarthol? | | |

## Rhan Dau – Monitro cynnydd Siarter Y Gofalwyr Maeth

| Cwestiwn | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|
| 2.8 Sut rydych yn sicrhau bod gan eich plant yr hawl i wneud penderfyniadau ynglŷn â'u bywydau eu hunain? | | |
| 2.9 Sut rydych yn sicrhau bod plant yn gwybod pwy yw eu rhieni corfforaethol? | | |
| 2.10 Beth mae plant yn ei ddweud am yr hyn y maent yn ei ddisgwyl gan eu rhieni corfforaethol? | | |
| 2.11 Sut rydych yn gweithredu fel llysgennad dros y gwasanaeth maethu? | | |
| 2.12 Sut rydych yn dysgu am ddigwyddiadau cefnogi oddi wrth sefydliadau fel Y Rhwydwaith Maethu, Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol neu Voices from Care? A ydych yn mynychu rhai o'r rhain? | | |

# Hunan-asesu ar gyfer gofalwyr maeth

## Rhan Tri – Partneriaid a Chydweithio

| Cwestiwn | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|
| 3.1 Pwy yw'r partneriaid a all gynorthwyo i ddatblygu Siarter Y Gofalwyr Maeth? | | |
| 3.2 Sut rydych yn sicrhau bod yr holl bartneriaid yn gweithio tuag at y Siarter? | | |
| 3.3 Sut rydych yn dal partneriaid yn atebol? | | |

## Rhan Tri – Partneriaid a Chydweithio

| Cwestiwn | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|
| 3.4 Sut rydych chi a'ch plant yn gysylltiedig â llunio penderfyniadau â phartneriaid? | | |
| 3.5 A ydych yn credu bod yna barch at y naill a'r llall rhyngoch chi a'r gwasanaeth maethu? | | |
| 3.6 A wahoddir eraill sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth maethu, megis cynghorwyr a staff yr awdurdod lleol, i fynychu'ch Cymdeithas Gofal Maeth neu grŵp cymorth? | | |
| 3.7 Faint o werthfawrogiad a chefnogaeth a gewch chi fel gofalwr maeth? | | |

# Hunan-asesu ar gyfer gofalwyr maeth


**Rhan Pedwar – Cymorth Cenedlaethol**


| Cwestiwn | Ymateb | Pa gam/au y gallwch chi eu cymryd i wella? |
|---|---|---|
| 4.1 A allech chi lobïo'ch cynghorydd lleol i sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r Siarter ac yn gysylltiedig â'i gweithredu? | | |
| 4.2 Petai yna gymhwyster i ofalwyr maeth, a welech chi hyn fel cyfle i ddatblygu rhagor fel gofalwr maeth? | | |
| 4.3 A ydych yn bachu ar gyfleoedd wrth iddynt godi i gyfarfod â chynrychiolwyr yr awdurdod lleol, Swyddfa'r Comisiynydd Plant neu Lywodraeth Cymru, i drafod eich profiad fel gofalwr maeth? | | |
| 4.4 Beth fyddech yn ei ddweud wrth Lywodraeth Cymru am yr hyn a allai wella profiad plentyn mewn gofal maeth, neu'ch profiad fel gofalwr maeth? | | |

# Cynllun Gweithredu Personol

| **Gweithred/nod penodol**<br><br>Beth rydych yn mynd i'w gyflawni? Beth yw'r camau y mae arnoch angen eu cymryd? | **Mesuradwy**<br><br>Sut y byddwch yn gwybod pan fyddwch wedi cyflawni'r nod hwn? Sut y bydd eraill yn gwybod? | **Cyraeddadwy**<br><br>Beth sydd ei angen i gyflawni'r nod hwn o ran sgiliau, gwybodaeth ac adnoddau?<br>Pwy arall sydd ei angen i'ch helpu i gyflawni'ch nod? | **Perthnasol**<br><br>Sut mae'r cynllun gweithredu hwn yn ymwneud â Siarter Y Gofalwyr Maeth? | **Graddfa Amser**<br><br>Pa bryd rydych yn bwriadu gweithredu'r cynllun gweithredu? |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

## Siart Llif Gweithredu Siarter y Gofalwyr Maeth






**FCA = Cymdeithas Gofal Maeth. I gael mwy o wybodaeth am sefydlu Cymdeithas Gofal Maeth leol, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â'r Rhwydwaith Maethu campaigns@fostering.net.*

## Ynglŷn â'r Rhwydwaith Maethu

Y Rhwydwaith Maethu yw prif elusen faethu'r Deyrnas Unedig. Y ni yw'r rhwydwaith hanfodol ar gyfer maethu, gan ddod â phawb ynghyd sy'n gysylltiedig â bywydau plant wedi'u maethu. Cynorthwywn ofalwyr maeth i weddnewid bywydau plant ac rydym yn gweithio â gwasanaethau maethu a'r sector ehangach i ddatblygu ac i rannu arferion gorau.

Gweithiwn i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd wedi'i faethu yn profi bywyd teuluol sefydlog, ac rydym yn angerddol dros y gwahaniaeth a wna gofal maeth. Hyrwyddwn faethu ac fe geisiwn greu newid hanfodol fel bod gofal maeth y gorau un y gall fod..

## Cysylltwch â

I ganfod mwy o wybodaeth am ein gwaith yng Nghymru, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â:


**Rhwydwaith Maethu Cymru**
1, Pentir Caspian, Stryd Pierhead
Bae Caerdydd CF10 4DQ.

**Ffôn:** 029 2044 0940
**E-bost:** wales@fostering.net
**Gwe:** thefosteringnetwork.org.uk


Dilynwch ni ar:

/thefosteringnetwork

@fosteringnet

@fosteringnet


Cofrestrir Y Rhwydwaith Maethu yng Nghymru a Lloegr fel cwmni cyfyngedig, rhif 1507277.
Swyddfa gofrestredig: 87, Blackfriars Road, Llundain SE1 8HA. Elusen gofrestredig, rhif 280852 yng Nghymru a Lloegr, a rhif SCO39338 yn yr Alban. Rhif cofrestru TAW: 231 6335 90.



© Y Rhwydwaith Maethu 2018

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu, storio na chyflwyno i system adalw unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ffurf neu drwy unrhyw fodd (electronig, mecanyddol, llungopïo, cofnodi neu fel arall), heb ganiatâd blaenorol y cyhoeddwr.